— “cyfalaf a weinyddir gan lysoedd Cymru a Lloegr neu'r Alban ar ran person o dan 18, sy'n deillio o ddyfarniad iawndal am anaf personol i'r person hwnnw neu o iawndal i'w ddiogolledu am farwolaeth un rhiant neu'r ddau riant”.

24. After note 52, insert—

52A. Atebwch “Ydwyf/Ydyw” i'r cwestiwn hwn os—

(i) ydych chi, neu'ch partner, o dan 60 oed a bod un neu fwy o'r amodau canlynol wedi'u bodloni:

(a) eich bod chi, neu'ch partner, yn cael lwfans gweini, lwfans byw i'r anabl, lwfans gweithio i'r anabl, atodiad symud-o-gwmpas, budd-dâl analluogrwydd tymor-hir neu lwfans anabledd difrifol (ond yn achos budd-dâl analluogrwydd tymor-hir

Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

neu lwfans anableded difrifol, dim ond lle y'i telir mewn perthynas â'r person sy'n cael y budd-dâl neu'r lwfans);

- (b) eich bod chi, neu'ch partner, wedi peidio â chael budd-dâl analluogrwydd tymor-hir (neu, os yw paragraff (ii) yn gymwys, eich bod chi neu'ch partner wedi peidio â chael pensiwn analluedd cyn 13 Ebrill 1995) oherwydd talu pensiwn ymddeol ac, yn achos eich partner, ei fod ef/ei bod hi yn dal yn aelod o'ch teulu;
- (c) eich bod chi, neu'ch partner, wedi bod yn cael lwfans gweini neu lwfans byw i'r anabl ond bod taliadau budd-dâl wedi'u hatal o dan adran 113(2) Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992;
- (d) y darparwyd ar eich cyfer chi, neu'ch partner, gerbyd anabl neu gerbyd arall neu grant ar gyfer cerbyd o'r fath, o dan ddeddfwriaeth Cymru a Lloger neu'r Alban;
- (e) eich bod chi, neu'ch partner, wedi'ch cofrestru'n ddall neu wedi peidio â bod wedi'ch cofrestru felly ddim mwy nag 28 wythnos yn ôl;
- (f) (i) eich bod yn methu â gweithio o dan Ran XIIA Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992; ac

eich bod wedi methu â gweithio, neu'ch bod wedi cael eich trin fel petaech yn methu â gweithio am o leiaf y 364 diwrnod diwethaf yn ddi-dor neu, os ydych yn derfynol sâl, am o leiaf y 196 diwrnod diwethaf yn ddi-dor (gan gynnwys unrhyw gyfnod o analluogrwydd yn dod cyn 13 Ebrill 1995 ac yn bodloni amod (f)(ii) isod; ac anwybyddwch unrhyw doriad neu doriadau o hyd at 56 diwrnod yr un rhwng cyfnodau o analluogrwydd, a phan fyddwch wedi cwblhau'r cyfnod cymhwyso, unrhyw gyfnod o hyfforddiant cyflogaeth neu unrhyw gyfnod pan fuoch yn cael lwfans hyfforddiant); neu

- (ii) yn union cyn 13 Ebrill 1995, mewn perthynas â chyfnod di-dor o ddim llai nag 28 wythnos, eich bod chi neu'ch partner,

- wedi darparu tystiolaeth o analluogrwydd yn unol â rheoliad 2 y Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Tystiolaeth Feddygol) 1976 (neu ddeddfwriaeth gyfatebol Gogledd Iwerddon) fel yr oedd bryd hynny mewn grym i ategu cais am fudd-dâl salwch, pensiwn analluedd neu lwfans anableded difrifol o fewn ystyr adrannau 31, 33 neu 68 Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (neu ddeddfwriaeth gyfatebol Gogledd Iwerddon) fel yr oedd bryd hynny mewn grym, cyn belled ag na wnaeth swyddog dyfarnu benderfynu nad oeddech chi, neu yn ôl y digwydd, eich partner yn methu â gweithio, neu

- yn cael tâl salwch statudol o dan Ran XI Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 fel yr oedd mewn grym ar y pryd;

ac o 13 Ebrill 1995 ymlaen eich bod chi, neu yn ôl y digwydd, eich partner, wedi parhau i fethu â gweithio yn unol â Rhan XIIA Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 yn ddi-dor (anwybyddwch unrhyw doriad neu doriadau o hyd at 56 diwrnod yr un rhwng cyfnodau o analluogrwydd);

- (ii) eich bod chi, neu'ch partner, yn llai na 80 oed ond ddim yn llai na 60 oed a bod un neu fwy o amodau (a) i (f) ym mharagraff (i) wedi'u bodloni (ond yn achos amod (f) (i), pan fyddwch wedi cwblhau'r cyfnod cymhwyso, ni ellir anwybyddu unrhyw gyfnod o hyfforddiant cyflogaeth nac unrhyw gyfnod pan fuoch yn cael lwfans hyfforddiant); neu

(iii) byddai paragraff (i) neu (ii) yn gymwys i'ch partner, oni bai bod eich partner yn cael ei drin fel petai'n gallu gweithio drwy ddyfarniad o dan adran 171E Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992; neu

(iv) y buoch, neu'ch bod wedi'ch trin fel petaech yn methu â gweithio o dan Ran XIII Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 am gyfnod di-dor o o leiaf 196 diwrnod (anwybyddwch unrhyw doriad neu doriadau o hyd at 56 diwrnod yr un rhwng cyfnodau o analluogrwydd); neu

(v) bod un neu fwy o'r canlynol (gan gynnwys y rhai sy'n cyfateb yng Ngogledd Iwerddon) yn daladwy ar eich cyfer chi neu'ch partner:

- (a) budd-dâl analluogrwydd tymor-hir;
- (b) budd-dâl analluogrwydd tymor-byr ar y cyfradd uchaf;
- (c) lwfans gweini;
- (d) lwfans anabledd difrifol;
- (e) lwfans byw i'r anabl;
- (f) cynnydd mewn pensiwn anabledd am weini cyson;
- (g) cynnydd mewn pensiwn o dan gynllun pensiwn rhyfel neu gynllun anafiadau diwydiannol am weini, neu weini cyson, neu sy'n gyfatebol i lwfans byw i'r anabl; neu

(vi) bod un o (v)(b), (e), (f) neu (g) yn daladwy oherwydd eich analluogrwydd chi neu'ch partner ond wedi peidio â bod yn daladwy oherwydd eich bod chi neu ef/hi yn cael triniaeth feddygol am ddim neu driniaeth arall fel claf mewnol yn un o ysbytai'r NHS neu sefydliad cyffelyb neu o dan drefniadau a wnaed gan un o gyrff yr NHS neu'r Ysgrifennydd Gwladol (dalier sylw: nid yw person sy'n bwrw tymor yng ngharchar neu o dan gadwad mewn sefydliad i droseddwr ifanc yn cael ei gyfrif fel "claf mewnol"); neu

(vii) darperir cerbyd anabl neu gerbyd arall i chi neu'ch partner neu eich bod chi neu'ch partner yn cael lwfans am gerbyd o'r fath (gan gynnwys lle y darperir y cerbyd neu lwfans o dan ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon)."

SCHEDULE 3

Regulation 2(c)

Amendments to "Ffurflen 3"

1. In note A in the reference to "Rhan 3", for "am wybodaeth ariannol oddi wrth landlordiaid" substitute "am wybodaeth oddi wrth landlordiaid ac elusennau a mewn perthynas ag eiddo eglwysig."

2. After note M, insert

"N. Ni ellir gwneud taliad grant ond yn unig yn erbyn anfoneb, hawliad neu dderbynneb am daliad am waith sy'n dderbyniol gan y Cyngor. Nid yw anfoneb a roddir gennych chi neu aelod o'ch teulu yn dderbyniol."

3. In question 3.9 for "(os nac ydwyf a nac ydyw, ewch i 3.11)" substitute "(os nac ydwyf a nac ydyw, ewch i 3.10A)".

4. After question 3.10, insert—

Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

3.10A A ydych wedi bod, neu wedi cael eich trin fel petaech, yn methu â gweithio am o leiaf y 364 diwrnod diwethaf yn ddi-dor?

Nodyn 26A

Ydwyf (Ewch i 3.10B)

Nac
Ydwyf (Ewch i 3.10C)

3.10B Rhowch y manylion, gan gynnwys dyddiadau:

.....

3.10C Os ydych yn derfynol sâl, a ydych wedi bod, neu wedi cael eich trin fel petaech, yn methu â gweithio, am o leiaf y 196 diwrnod diwethaf yn ddi-dor?

Nodyn 26B

Ydwyf (Ewch i 3.10D)

Nac
Ydwyf (Ewch i 3.11)

3.10D Rhowch y manylion gan gynnwys dyddiadau:

.....

5. In question 3.13, insert in the appropriate places—

Budd-dâl analluogrwydd tymor-hir

Chi

Eich partner

Nodyn 28A

Budd-dâl analluogrwydd tymor-byr:
– yn gyfartal â'r gyfradd tymor-hir

Chi

Eich partner

Nodyn 28B

– yn uwch na'r gyfradd tymor-hir

Chi

Eich partner

6. In question 3.41, insert in the appropriate places—

Pensiwn atodol gweddw rhyfel

Nodyn 44A

£ £

Pensiwn gweddw yn ôl y gyfradd atodol o dan y
Cynllun Anafiadau Personol (Sifilwyr)

Nodyn 44B

£ £

Tâl gweddw o dan yr Offerynnau Eithrio (“Dispensing Instruments”)

Nodyn 44C

£ £

7. After question 3.43, insert—

3.43A Os ydych chi neu eich partner wedi ateb “Ydwyf” neu “Ydyw” i’r rhan o gwestiwn 3.43 sy’n gofyn am lwfans gofal analluedd, a ydy’r lwfans hwnnw wedi bod, neu a fydd, yn cael ei dalu i chi neu’ch partner mewn perthynas â chyfnod cyn dyddiad y dyfarniad?

Chi Ydwyf (os ydwyf neu ydyw, ewch i 3.43B) Nac Ydwyf (os nac ydwyf neu nac ydyw, ewch i 3.44)

Eich partner Ydyw Nac Ydyw

3.43B Rhowch y manylion gan gynnwys dyddiadau:

.....

8. In question 3.45—

- (a) against the entry for “Incwm oddi wrth denantiaid” insert “Nodyn 46A”; and
- (b) after “Cyfraniad y rhiant neu’r partner at grant myfyriwr” insert “(os y’i talwyd neu beidio)”.

9. In questions 3.44, 3.46, 3.48 and 3.49, after “chi neu’ch partner” insert “(neu chi a’ch partner ar y cyd)”.

10. In question 3.47, after “cynilion neu fuddsoddiadau eraill” insert “(sy’n perthyn i chi yn unigol ac ar y cyd)”.

11. In question 3.50, after “cyfalaf” insert “sy’n perthyn i chi yn unigol ac ar y cyd”.

12. For question 3.51, substitute—

Cyfraniadau at grantiau myfyrywyr

3.51 A ydych chi neu’ch partner yn gwneud, neu a yw’r naill neu’r llall ohonoch yn cael eich trin fel petaech, yn gwneud cyfraniad mewn perthynas â grant myfyriwr ar gyfer mab, merch neu bartner?

Ydwyf/Ydyw
Nac Ydwyf/ Nac Ydyw (Ewch i 3.52A)

13. After question 3.52 insert—

Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

Taliadau gofal plant perthnasol

3.52A A ydych chi yn talu am ofal unrhyw blentyn a enwyd yng nghwestiwn 3.20 uchod ac sydd o dan 11 oed?

Ydwyf (Ewch i 3.52B)

Nac
Ydwyf (Ewch i'r **Datganiad** ar ddiwedd yr adran hon)

3.52B A oes un neu fwy o'r canlynol yn gymwys?

	Ydyw	Nac Ydyw
Mae'r plentyn, neu un neu fwy o'r plant, dan ofal gwarchodwr plant sydd wedi'i gofrestru o dan y Ddeddf Plant 1989	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mae'r plentyn, neu un neu fwy o'r plant, yn 8 oed a throsodd ond o dan 11 oed, ac mae'r gofal yn cael ei ddarparu y tu allan i oriau ysgol gan ysgol ar dir ac adeiladau'r ysgol neu gan awdurdod lleol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mae'r gofal yn cael ei ddarparu o dan gynllun gofal plant sy'n cael ei weithredu ar eiddo'r Goron a lle nad oes rhaid cofrestru o dan y Ddeddf Plant 1989	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

(Os ydyw i un neu fwy, ewch i 3.52C)

(Os nac ydyw i'r tri, ewch i'r **Datganiad** ar ddiwedd yr adran hon)

3.52C A ydych yn unig riant ac yn gweithio am dâl?

Ydwyf (ewch i 3.52G)

Nac
Ydwyf

3.52D A ydych chi a'ch partner yn gweithio am dâl?

Ydym (Ewch i 3.52G)

Nac
Ydym

3.52E A ydych yn un o gwpl sydd â'r naill yn gweithio am dâl a'r llall yn analluog?

Nodyn 52A

Ydwyf (Ewch i 3.52F)

Nac
Ydwyf (Ewch i'r **Datganiad** ar ddiwedd yr adran hon)

3.52F Nodwch p'un ohonoch sydd yn gweithio am dâl a ph'un sy'n analluog, ac o dan p'un o'r categorïau a restrwyd yn **Nodyn 52A** y daw eich analluogrwydd chi neu'ch partner:

.....
.....
.....

3.52G Rhowch y manylion canlynol am bob plentyn yr ydych yn talu am eu gofal:—

Enw llawn y plentyn:

Dyddiad geni: / / Oedran:

Enw, cyfeiriad a rhif ffôn y person neu'r corff sy'n darparu gofal ar gyfer y plentyn:

.....
.....
.....

Ar ba ddyddiau o'r wythnos, ac yn ystod pa oriau, y darperir gofal plant?

.....
.....
.....

Swm a godir: £

Pa mor aml y'i telir

14. For note 11, substitute—

“11. Ni ellir gwneud taliad grant ond yn unig yn erbyn anfoneb, hawliad neu dderbynneb am daliad am waith sy'n dderbyniol gan y Cyngor. Nid yw anfoneb a roddir gennych chi neu aelod o'ch teulu yn dderbyniol; er enghraifft, lle gwneir gwaith gennych chi neu aelod o'ch teulu, rhaid fydd cael anfoneb (y gellir profi ei bod yn ddilys) gan drydydd parti am gost y defnyddiau.”.

15. At the end of note 12 add—

“Ni ellir gwneud taliad grant ond yn unig yn erbyn anfoneb, hawliad neu dderbynneb am daliad am waith sy'n dderbyniol gan y Cyngor. Nid yw anfoneb a roddir gennych chi neu aelod o'ch teulu yn dderbyniol; er enghraifft, lle gwneir gwaith gennych chi neu aelod o'ch teulu, rhaid fydd cael anfoneb (y gellir profi ei bod yn ddilys) gan drydydd parti am gost y defnyddiau.”.

16. After note 26, insert—

“26A. Lle mae dau neu fwy o gyfnodau o analluogrwydd wedi'u rhannu gan doriad neu doriadau o ddim mwy na 56 diwrnod yr un, mae'r cyfnodau hynny yn cael eu trin fel un cyfnod di-dor o analluogrwydd.

26B. Mae person yn derfynol sâl os yw'n dioddef o glefyd cynyddol a bod disgwyl rhesymol iddo farw o ganlyniad i'r clefyd hwnnw o fewn 6 mis. Lle mae dau neu fwy o gyfnodau o analluogrwydd wedi'u rhannu gan doriad neu doriadau o ddim mwy na 56 diwrnod yr un, mae'r cyfnodau hynny yn cael eu trin fel un cyfnod di-dor o analluogrwydd.”.

17. For note 28, substitute—

“28. Atebwch “Ydwyf/Ydyw” i'r cwestiwn hwn os ydych chi neu'ch partner wedi peidio â chael y pensiwn hwn oherwydd talu pensiwn ymdeol. (Ar ôl 12 Ebrill 1995 cymerodd y budd-dâl analluogrwydd tymor-hir le'r pensiwn analluedd.)

Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

28A Atebwch “Ydwyf/Ydyw” i'r cwestiwn hwn os ydych chi neu'ch partner wedi peidio â chael budd-dâl analluogrwydd tymor-hir oherwydd talu pensiwn ymddeol. (Ar ôl 12 Ebrill 1995, cymerodd y budd-dâl analluogrwydd tymor-hir le'r pensiwn analluedd o wythnos 53 ymlaen o analluogrwydd person.)

28B Atebwch “Ydwyf/Ydyw” i'r rhan briodol o'r cwestiwn hwn os ydych chi neu'ch partner wedi peidio â chael budd-dâl analluogrwydd tymor-byr ar raddfa sy'n gyfartal neu'n fwy na'r gyfradd tymor-hir oherwydd talu pensiwn ymddeol. (Ar ôl 12 Ebrill 1995, cymerodd y budd-dâl analluogrwydd tymor-byr le'r budd-dâl salwch a'r budd-daliadau analluedd am wythnosau 1—52 o analluogrwydd person.)”

18. In note 32, for the words after “ar gylch diwethaf” to “ar y pum wythnos ddiwethaf” substitute “oriau gwaith y plentyn (os oes ganddo ef gylch y gellir ei adnabod) neu (os nad oes)”.

19. After note 44, insert—

44A. Telir pensiynau atodol i weddwon rhyfel, er enghraifft: (i) lle mae'r weddw yn 40 neu drosodd, (ii) lle na all ei chynnal ei hun, neu (iii) mewn perthynas â rhai o blant ei diweddar ŵr.

44B. O dan y Cynllun hwn, telir pensiynau a lwfansau i sifilwyr a anafwyd neu a laddwyd yn y Rhyfel 1939—45, neu mewn perthynas â hwy.

44C. Gwneir y taliadau hyn i weddwon personau a laddwyd cyn 31 Mawrth 1973 ar wasanaeth cyfatebol i wasanaeth yn lluoedd arfog y Goron.”.

20. After note 46, insert—

46A. Peidiwch â chynnwys taliadau a wneir i chi gan awdurdod iechyd, awdurdod lleol neu gorff gwirfoddol am blant sy'n derbyn gofal gennyich yn eich cartref.”.

21. In note 52, after “hunan-gyflogedig, asedion eich busnes” insert—

— “cyfalaf a weinyddir gan lysoedd Cymru a Lloegr neu'r Alban ar ran person o dan 18, sy'n deillio o ddyfarniad iawndal am anaf personol i'r person hwnnw neu o iawndal i'w ddigolledu am farwolaeth un rhiant neu'r ddau riant”.

22. After note 52, insert—

52A Atebwch “Ydwyf/Ydyw” i'r cwestiwn hwn os—

(i) ydych chi, neu'ch partner, o dan 60 oed a bod un neu fwy o'r amodau canlynol wedi'u bodloni:

- (a) eich bod chi, neu'ch partner, yn cael lwfans gweini, lwfans byw i'r anabl, lwfans gweithio i'r anabl, atodiad symud-o-gwmpas, budd-dâl analluogrwydd tymor-hir neu lwfans anabledd difrifol (ond yn achos budd-dâl analluogrwydd tymor-hir neu lwfans anabledd difrifol, dim ond lle y'i telir mewn perthynas â'r person sy'n cael y budd-dâl neu'r lwfans);
- (b) eich bod chi, neu'ch partner, wedi peidio â chael budd-dâl analluogrwydd tymor-hir (neu, os yw paragraff (ii) yn gymwys, eich bod chi neu'ch partner wedi peidio â chael pensiwn analluedd cyn 13 Ebrill 1995) oherwydd talu pensiwn ymddeol ac, yn achos eich partner, ei fod ef/ei bod hi yn dal yn aelod o'ch teulu;
- (c) eich bod chi, neu'ch partner, wedi bod yn cael lwfans gweini neu lwfans byw i'r anabl ond bod taliadau budd-dâl wedi'u hatal o dan adran 113(2) Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992;
- (d) y darparwyd ar eich cyfer chi, neu'ch partner, gerbyd anabl neu gerbyd arall neu grant ar gyfer cerbyd o'r fath, o dan ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr neu'r Alban;

- (e) eich bod chi, neu'ch partner, wedi'ch cofrestru'n ddall neu wedi peidio â bod wedi'ch cofrestru felly ddim mwy nag 28 wythnos yn ôl;
- (f) (i) eich bod yn methu â gweithio o dan Ran XIIA Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992; ac

eich bod wedi methu â gweithio, neu'ch bod wedi cael eich trin fel petaech yn methu â gweithio am o leiaf y 364 diwrnod diwethaf yn ddi-dor neu, os ydych yn derfynol sâl, am o leiaf y 196 diwrnod diwethaf yn ddi-dor (gan gynnwys unrhyw gyfnod o analluogrwydd yn dod cyn 13 Ebrill 1995 ac yn bodloni amod (f)(ii) isod; ac anwybyddwch unrhyw doriad neu doriadau o hyd at 56 diwrnod yr un rhwng cyfnodau o analluogrwydd, a phan fyddwch wedi cwblhau'r cyfnod cymhwyso, unrhyw gyfnod o hyfforddiant cyflogaeth neu unrhyw gyfnod pan fuoch yn cael lwfans hyfforddiant);

neu

- (ii) yn union cyn 13 Ebrill 1995, mewn perthynas â chyfnod di-dor o ddim llai nag 28 wythnos, eich bod chi neu'ch partner,

- wedi darparu tystiolaeth o analluogrwydd yn unol â rheoliad 2 y Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Tystiolaeth Feddygol) 1976 (neu ddeddfwriaeth gyfatebol Gogledd Iwerddon) fel yr oedd bryd hynny mewn grym i ategu cais am fudd-dâl salwch, pensiwn analluedd neu lwfans anableded difrifol o fewn ystyr adrannau 31, 33 neu 68 Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 (neu ddeddfwriaeth gyfatebol Gogledd Iwerddon) fel yr oedd bryd hynny mewn grym, cyn belled ag na wnaeth swyddog dyfarnu benderfynu nad oeddech chi, neu yn ôl y digwydd, eich partner yn methu â gweithio, neu
- yn cael tâl salwch statudol o dan Ran XI Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 fel yr oedd mewn grym ar y pryd;

ac o 13 Ebrill 1995 ymlaen eich bod chi, neu yn ôl y digwydd, eich partner, wedi parhau i fethu â gweithio yn unol â Rhan XIIA Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 yn ddi-dor (anwybyddwch unrhyw doriad neu doriadau o hyd at 56 diwrnod yr un rhwng cyfnodau o analluogrwydd);

- (ii) eich bod chi, neu'ch partner, yn llai na 80 oed ond ddim yn llai na 60 oed a bod un neu fwy o amodau (a) i (f) ym mharagraff (i) wedi'u bodloni (ond yn achos amod (f) (i), pan fyddwch wedi cwblhau'r cyfnod cymhwyso, ni ellir anwybyddu unrhyw gyfnod o hyfforddiant cyflogaeth nac unrhyw gyfnod pan fuoch yn cael lwfans hyfforddiant); neu

(iii) y byddai paragraff (i) neu (ii) yn gymwys i'ch partner, oni bai bod eich partner yn cael ei drin fel petai'n gallu gweithio drwy ddyfarniad o dan adran 171E Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992; neu

(iv) y buoch, neu'ch bod wedi'ch trin fel petaech yn methu â gweithio o dan Ran XIIA Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992 am gyfnod di-dor o o leiaf 196 diwrnod (anwybyddwch unrhyw doriad neu doriadau o hyd at 56 diwrnod yr un rhwng cyfnodau o analluogrwydd); neu

- (v) bod un neu fwy o'r canlynol (gan gynnwys y rhai sy'n cyfateb yng Ngogledd Iwerddon) yn daladwy ar eich cyfer chi neu'ch partner:

- (a) budd-dâl analluogrwydd tymor-hir;
- (b) budd-dâl analluogrwydd tymor-byr ar y cyfradd uchaf;
- (c) lwfans gweini;

Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

- (d) lwfans anabledd difrifol;
- (e) lwfans byw i'r anabl;
- (f) cynnydd mewn pensiwn anabledd am weini cyson;
- (g) cynnydd mewn pensiwn o dan gynllun pensiwn rhyfel neu gynllun anafiadau diwydiannol am weini, neu weini cyson, neu sy'n gyfatebol i lwfans byw i'r anabl; neu

(vi) bod un o (v)(b), (e), (f) neu (g) yn daladwy oherwydd eich analluogrwydd chi neu'ch partner ond wedi peidio â bod yn daladwy oherwydd eich bod chi neu ef/hi yn cael triniaeth feddygol am ddim neu driniaeth arall fel claf mewnol yn un o ysbytai'r NHS neu sefydliad cyffelyb neu o dan drefniadau a wnaed gan un o gyrff yr NHS neu'r Ysgrifennydd Gwladol (dalier sylw: nid yw person sy'n bwrw tymor yng ngharchar neu o dan gadwad mewn sefydliad i droseddwr ifanc yn cael ei gyfrif fel "claf mewnol"); neu

(vii) y darperir cerbyd anabl neu gerbyd arall i chi neu'ch partner neu eich bod chi neu'ch partner yn cael lwfans am gerbyd o'r fath (gan gynnwys lle y darperir y cerbyd neu lwfans o dan ddeddfwriaeth Gogledd Iwerddon)."

23. In note 58, after ""Elusen"" insert ", a ddiffinir fel yn adran 96 Deddf Elusennau 1993,".

SCHEDULE 4

Regulations 2(d)

Amendments to "Ffurflen 4"

1. In note A in the reference to "Rhan 3", for "yn achos rhai landlordiaid, am adnoddau ariannol;" substitute "sy'n gofyn am wybodaeth oddi wrth landlordiaid ac elusennau a mewn perthynas ag eiddo eglwysig;".

2. After note G, insert—

"H.Ni ellir gwneud taliad grant ond yn unig yn erbyn anfoneb, hawliad neu dderbynneb am daliad am waith sy'n dderbyniol gan y Cyngor. Nid yw anfoneb a roddir gennych chi neu aelod o'ch teulu yn dderbyniol."

3. For note 11, substitute—

"11. Ni ellir gwneud taliad grant ond yn unig yn erbyn anfoneb, hawliad neu dderbynneb am daliad am waith sy'n dderbyniol gan y Cyngor. Nid yw anfoneb a roddir gennych chi neu aelod o'ch teulu yn dderbyniol; er enghraifft, lle gwneir gwaith gennych chi neu aelod o'ch teulu, rhaid fydd cael anfoneb (y gellir profi ei bod yn ddilys) gan drydydd parti am gost y defnyddiau."

4. At the end of note 12, add—

"Ni ellir gwneud taliad grant ond yn unig yn erbyn anfoneb, hawliad neu dderbynneb am daliad am waith sy'n dderbyniol gan y Cyngor. Nid yw anfoneb a roddir gennych chi neu aelod o'ch teulu yn dderbyniol; er enghraifft, lle gwneir gwaith gennych chi neu aelod o'ch teulu, rhaid fydd cael anfoneb (y gellir profi ei bod yn ddilys) gan drydydd parti am gost y defnyddiau."

5. In note 13, after ""Elusen"" insert ", a ddiffinir fel yn adran 96 Deddf Elusennau 1993,".

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu fersiynau Cymraeg o'r diwygiadau a bennwyd gan y Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai etc. (Ffurflenni a Manylion Penodedig) (Diwygio) 1995 ([O.S 1995/839](#)) a thrwy hynny'n diwygio'r Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai etc. (Ffurflenni a Manylion Penodedig) (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 1994 ([O.S. 1994/693](#)) fel y'i diwygiwyd. Mae'r mwyafrif o'r diwygiadau yn codi yn sgïal diwygiadau a wnaed gan y Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai etc. (Lleihau Grant) (Diwygio) 1995 ([O.S 1995/838](#)) i'r Rheoliadau Grantiau Adnewyddu Tai etc. (Lleihau Grant) 1994 ([O.S. 1994/648](#)). Ceir mân ddiwygiadau a diwygiadau drafftio hefyd.

Mae Atodlen 1 y Rheoliadau'n diwygio Ffurflen 1 cais am grant adnewyddu; Atodlen 2 yn diwygio Ffurflen 2 cais am gyfleusterau i'r anabl; Atodlen 3 yn diwygio Ffurflen 3 cais am grant rhannau cyffredin; ac Atodlen 4 yn diwygio Ffurflen 4 cais am grant tŷ mewn aml-ddaliadaeth.

Mae Rheoliad 3(1) yn atal y Rheoliadau rhag bod yn gymwys i geisiadau a wneir cyn 17 Ebrill 1995 (ac eithrio fel y'i pennir yn rheoliad 3(2)).

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations prescribe Welsh versions of the amendments prescribed by the Housing Renovation etc. Grants (Prescribed Forms and Particulars) (Amendment) Regulations 1995 (S.I. [1995/839](#)) and thereby amend the Housing Renovation etc. Grants (Prescribed Forms and Particulars) (Welsh Forms and Particulars) Regulations 1994 (S.I. [1994/693](#)) as amended. Most of the amendments are consequential to amendments made by the Housing Renovation etc. Grants (Reduction of Grant) (Amendment) Regulations 1995 (S.I. [1995/838](#)) to the Housing Renovation etc. Grants (Reduction of Grants) Regulations 1994 (S.I. [1994/648](#)). There are also minor and drafting amendments.

Schedule 1 to the Regulations amends Form 1 application for renovation grant; Schedule 2 amends Form 2 application for disabled facilities grant; Schedule 3 amends Form 3 application for common parts grant; and Schedule 4 amends Form 4 application for HMO grant.

Regulation 3(1) stops the Regulations applying to applications made before 17th April 1995 (except as specified in regulation 3(2)).